

Arfer da wrth ofyn am gyfieithydd ar y pryd, a gweithio gyda nhw

Cais am gyfieithydd ar y pryd

Mae Gwasanaeth Cyfieithu Cymru yn gweithredu rhwng 7am a 10pm gyda gwasanaeth brys rhwng 10pm a 7am ddydd Llun i ddydd Sul. Os oes angen cyfieithydd ar y pryd arnoch, cysylltwch â ni drwy:

- Borth Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (os ydych wedi cofrestru)
- Ffôn - 02920 537555
- [Iaith Arwyddion Prydain \(IAP\)](#)
- E-bost- WITS@Caerdydd.gov.uk

Mewn achosion lle mae angen cyfieithydd ar y pryd ar frys, ffoniwch ni.

Sicrhewch fod y wybodaeth isod ar gael cyn gwneud y cais:

- Sefydliad ac Adran:
- Enw, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost
- Eich rhif archeb (os yw'n berthnasol).
- Enw'r cleient/claf ac unrhyw rif cyfeirnod y gellir ei adnabod (rhif claf neu rif rhywun sydd yn y ddalfa)
- Natur yr apwyntiad (er mwyn i ni allu sicrhau bod gan y cyfieithydd y cymhwyster priodol a/neu brofiad i gynnal yr apwyntiad).
- Dyddiad, Amser, Iaith a hyd yr apwyntiad.
- Unrhyw ofyniad arbennig e.e. cyfieithydd o ryw arbennig neu un penodol
- Lleoliad yr apwyntiad

Iaith Arwyddion Prydain - Mae angen cymaint o rybudd â phosib arnom ar gyfer dehonglyddion BSL oherwydd galw uchel

Mewn amgylchiadau lle bydd angen cyfieithydd am nifer o oriau, ystyriwch y bydd angen digon o egwyl arno, ac felly ystyriwch hyd yr apwyntiad. Mae hyn yn arbennig o wir am Iaith Arwyddion Prydain oherwydd galwadau corfforol yr Iaith.

Os oes angen cyfieithydd i nifer o bobl mewn amgylchedd grŵp neu ddigwyddiad, ystyriwch a oes angen mwy nag un cyfieithydd. Gall Gwasanaeth Cyfieithu Cymru gynnig rhagor o gyngor ar arfer gorau.

Unwaith i gyfieithydd gael ei gadarnhau, bydd Gwasanaeth Cyfieithu Cymru yn e-bostio cadarnhad i'r swyddog archebu. **Sicrhewch eich bod yn derbyn hyn cyn yr apwyntiad. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â Gwasanaeth Cyfieithu Cymru.**

Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, bydd gofyn i'r swyddog archebu arwyddo ffurflen "Prawf o bresenoldeb" ac awdurdodi unrhyw ddiwygiadau os yn berthnasol e.e. apwyntiad hirach.

Cafodd y swyddog archebu restr o'r costau y diwrnod canlynol.

Yn ystod yr apwyntiad

Ni ddylid gadael y cyfieithydd ar ei ben ei hun gyda'r cleient ar unrhyw adeg.

Dewiswch le tawel os medrwch chi. Rhaid i gyfieithydd fedru clywed a chael ei glywed. Weithiau bydd cyfieithydd yn cyflwyno eu hunain cyn i'r apwyntiad ddechrau ac yn esbonio eu bod yno i helpu gyda'r cyfathrebu.

Os nad yw hyn yn digwydd cyflwynwch y cyfieithydd ar ddechrau'r apwyntiad Bydd y cyfieithydd yn glynu wrth yr egwyddorion canlynol:

- Cyfrinachedd
- Didueddrwydd
- Cywirdeb air am air
- Ddim mewn rôl eiriolwr
- Gweler Cod Ymddygiad Gwasanaeth Cyfieithu Cymru am ragor o wybodaeth.

Efallai bydd y cyfieithydd yn gwneud nodiadau i helpu i ddehongli. Caiff y rhain eu dinistrio ar ôl y cyfweiliad.

Os ydych yn eistedd, trefnwch fel eich bod chi a'r defnyddwyr gwasanaeth yn eistedd wyneb yn wyneb, a bod y cyfieithydd yn eistedd rhyngoch chi. Mae hyn yn golygu y gallwch siarad yn uniongyrchol gyda'r aelod o'r cyhoedd/cleient.

Siaradwch â'r defnyddiwr gwasanaeth yn uniongyrchol, e.e. "Beth yw eich enw"? yn hytrach na "Allwch chi ofyn iddi beth yw ei henw?" Rhaid i chi ymddwyn fel eich bod yn rhannu'r un iaith - gan gydnabod a pharchu cefndir unigol cymaint â phosibl.

Rydych yn gyfrifol am y cyfarfod.

Peidiwch â siarad am fwy na rhai brawddegau ar y tro.

Ystyriwch hyd yr apwyntiad. A oes angen hoe ar y cyfieithydd? Cofiwch ei fod yn gweithio drwy ddwy iaith sy'n gallu bod yn flinedig.

Esboniwch eiriau a gweithdrefnau, dylech osgoi defnyddio jargon. Gwnewch yn siŵr bod y defnyddiwr gwasanaeth/claf yn deall yr hyn yr ydych chi'n ddweud. Gofynnwch os nad ydych yn siŵr o ffeithiau, agweddau neu ganfyddiadau perthnasol sydd wedi'u seilio ar ddiwylliant.

Sicrhewch fod gennych y wybodaeth gyswllt gywir ar gyfer y cleient, ac os oes yn well ganddynt gyfieithydd gwrywaidd neu fenywaidd, neu gyfieithydd penodol i'w helpu.

Rhowch grynodedb o'r hyn sydd wedi cael ei benderfynu ac eglurwch y camau ymarferol nesaf sydd angen eu cymryd - pryd, pam a sut.

Ar ôl yr apwyntiad, arwyddwch brawf presenoldeb y cyfieithydd. Ffurflen yw hon sydd angen eich llofnod unwaith y mae'r cyfieithydd wedi cwblhau'r apwyntiad. Mae hyn i gadarnhau faint o oriau o gyfieithu wnaed gan y cyfieithydd.

Byddwch yn ymwybodol o unrhyw faterion dadleuol neu sy'n achosi loes - cynhaliwch ôl-drafodaeth gyda'r cyfieithydd os oes angen. Peidiwch â disgwyl er hynny i'r cyfieithydd gynnig barn am y cleient na'u hamgylchiadau.

Os oes gennych unrhyw bryderon yr hoffech eu codi gyda Gwasanaeth Cyfieithu Cymru gallwch gysylltu â ni ar y manylion uchod.